



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru – Taflen Ffeithiau

Medi 2015

Cefndir

- Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £124.4 miliwn yn y Rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer 2015/16.
- Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn darparu cymorth hanfodol i rai o'n pobl sy'n fwyaf agored i niwed – mae ei hymagwedd gadarn o atal ac ymyrryd yn gynnar yn adlewyrchu amcanion Deddf Tai (Cymru) newydd ac agenda ddeddfwriaethol ehangach Llywodraeth Cymru.
- Mae'n cynorthwyo bron 60,000 o bobl bob blwyddyn i fyw mor annibynnol ag y gallant.
- Mae'r rhaglen yn cynorthwyo pobl o amrywiaeth o gateoriau. Maent yn cynnwys pobl:
 - sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu sy'n dod dros gyfnod o ddigartrefedd
 - pobl sy'n ffoi rhag trais domestig
 - pobl ag anghenion iechyd meddwl
 - pobl â phroblemau o ran camddefnyddio sylweddau
 - pobl ag anableddau dysgu
 - phobl hŷn yw cyfran arwyddocaol o'r bobl a gynorthwyr.

Nodau

Nodau'r Rhaglen yw

- Helpu pobl sy'n agored i niwed i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl trwy sicrhau bod gwasanaethau Cefnogi Pobl yn galluogi, ac yn datblygu annibyniaeth unigolyn, yn hytrach na chreu dibyniaeth hirdymor, h.y. 'gwneud gyda' ac nid 'gwneud dros'.
- Atal problemau neu ddarparu cymorth mor fuan ag sy'n bosibl er mwyn lleihau'r galw ar wasanaethau eraill megis iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.



- Helpu pobl i ddiogelu a chynnal a chadw eu cartref, trwy helpu i sicrhau'r incwm mwyaf posibl i bobl, gwella'u hyder a'u sgiliau, a'u galluogi i ymgysylltu â rhaglenni ehangach i gael cyfleoedd o ran hyfforddiant a swyddi.
- Sicrhau gwasanaethau o ansawdd da, a ddarperir mewn ffordd mor effeithlon ac effeithiol ag sy'n bosibl trwy gydweithio rhwng sefydliadau sy'n cynllunio ac yn ariannu gwasanaethau a'r rheiny sy'n darparu gwasanaethau.
- Darparu cymorth wedi'i seilio ar angen.
- Hybu cydraddoldeb a lleihau anghydraddoldebau.
- Gwneud pobl yn ganolog i'r rhaglen.

Sut caiff pobl eu cynorthwyo?

- Mae'r cymorth yn canolbwyntio ar feithrin annibyniaeth unigolyn a'i helpu i fagu'r sgiliau sydd eu hangen arno i fyw'n annibynnol. Mae'n bosibl y bydd y rhaglen yn ategu cymorth a ddarperir gan wasanaethau ieuchyd, gofal cymdeithasol neu gyfiawnder troseddol. Mae gweithwyr cymorth yn darparu cyngor ar reoli cyllidebau personol, cynnal rhwydweithiau cymorth, rheoli perthnasoedd â chymdogion.
- Gall pobl hefyd gael eu cyfeirio at wasanaethau eraill megis cyngor arbenigol ar dai a materion ariannol, gwasanaethau gofal neu driniaeth a chymorth i gael cyfleoedd o ran addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
- I gael cyngor ar sut i fanteisio ar wasanaethau Cefnogi Pobl cysylltwch â'ch awdurdod lleol: <http://gov.wales/topics/localgovernment/unitary-authorities/?skip=1&lang=cy>

Beth yw'r buddion?

- Mae'r rhaglen yn helpu i adeiladu cymunedau mwy cynaliadwy ac yn lleihau'r galw ar wasanaethau statudol megis ieuchyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cyfiawnder troseddol. Mae o fudd i'r unigolyn sy'n cael y cymorth ac i'r gymuned ehangach.
- Mae'r rhaglen yn cyfrannu at roi rhaglenni deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar waith, yn arbennig, y Ddeddf Tai a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).
- Mae cysylltiadau cryf hefyd rhwng nodau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch lles a'r aelwydydd a gynorthwyr trwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl.
- Bydd cymorth fel y bo'r angen yn darparu cymorth hanfodol wrth fynd i'r afael ag effaith diwygio lles ar bobl agored i niwed.
- Mae Canlyniadau Cefnogi Pobl wedi cael eu cynllunio i ddarparu gwybodaeth ynghylch effeithiolrwydd y rhaglen trwy ddangos a ydym yn helpu'r rheiny sy'n gofyn am gymorth i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r wybodaeth hon yn hollbwysig i'r achos dros gyllid yn y dyfodol.



Gwneud gwahaniaeth

Astudiaeth Achos 1

Roedd Alun wedi bod yn cael problemau iechyd meddwl ers 10 mlynedd. Cafodd ei dderbyn i'r ysbyty dro ar ôl tro. Byddai'n mynd ar ei hôl hi'n rheolaidd gyda'i feddyginiaeth ac yn defnyddio cyffuriau stryd ac alcohol i hunanfeddyginiaethu. Byddai ei ymddygiad yn mynd yn anwadal, byddai'n mynd ar ei hôl hi gyda'i rent ac yn colli ei lety. O ganlyniad ni fyddai ei nyrs seiciatrig gymunedol yn gallu cadw mewn cysylltiad ag ef. Byddai ei fywyd yn mynd yn fwyfwy anhrefnus a byddai'n mynd yn ôl i'r ysbyty, yn aml ar ôl ymddangosiad gerbron y llys. Yn dilyn atgyfeiriad at dîm cymorth â thenantiaeth, cafodd Alun gymorth gan weithiwr cymorth a'i helpodd i reoli cyllideb ei gartref ac a roddodd gymorth emosiynol iddo, yn ogystal â'i atgoffa i gymryd ei feddyginiaeth bresgripsiwn. Gyda chymorth a chysylltiad rheolaidd, lleihaodd ei ddefnydd o gyffuriau stryd a'i ymddygiad troseddol. O ganlyniad i'r cymorth a ariannwyd trwy raglen Cefnogi Pobl, erbyn hyn gall Alun reoli ei gartref ei hun ac mae'n cadw at ei apwyntiadau fel claf allanol.

Astudiaeth Achos 2

Mae gan Siwan ddau o blant. Mae hi wedi bod i mewn ac allan o berthnasoedd camdriniol ers nifer o flynyddoedd. Yn dilyn cyfnodau o gamdriniaeth, mae ei pherthnasoedd yn chwalu. Fodd bynnag, sawl tro mae hi wedi mynd yn ôl at bartneriaid camdriniol. Mae'r cylch hwn wedi achosi i Siwan golli cysylltiad â'i brawd a'i chwaer oedd wedi bod yn cynorthwyo â gofalu am ei phlant. O ganlyniad i'w hanawsterau mae hefyd wedi defnyddio alcohol i'w helpu i ymdopi. Mae presenoldeb y plant yn yr ysgol wedi bod yn afreolaidd a phan oeddent yn yr ysgol, roedd eu hymddygiad yn broblemus. Maent hefyd wedi gorfod newid ysgol sawl gwaith oherwydd bod y teulu wedi gadael ei lety.

Ym mis Ionawr, symudodd Siwan i loches gyda'i phlant. Gyda chymorth, dechreuodd reoli ei defnydd o alcohol ac adennill ei hunan-barch. Helpodd gweithiwr y lloches hi i ail-sefydlu ei chysylltiadau â'i theulu a chael lle mewn prosiect tai â chymorth dros dro lle cafodd gymorth â rhianta a chymorth i ddod o hyd i denantiaeth gyda chymdeithas tai leol. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd yn edrych ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn prosiect hyfforddi ar dechnoleg gwybodaeth.

Sut caiff gwasanaethau eu comisiynu?

- Mae prosiectau a ariennir gan y rhaglen ar gael ledled Cymru a darperir cymorth wedi'i seilio ar angen. Caiff cyllid ei ddyrannu trwy awdurdodau lleol a chaiff prosiectau eu comisiynu a'u cyflawni gan Awdurdodau Lleol a darparwyr y Trydydd Sector.
- Caiff gwasanaethau eu cynllunio trwy Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol amlasiantaethol. Trwy ddwyn ynghyd y bobl sy'n comisiynu, cyflenwi a defnyddio gwasanaethau fel partneriaid cyfartal a chyfuno eu gwybodaeth a'u harbenigedd, gellir cyflenwi gwasanaethau gwell.



- Mae Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar wariant yn eu hardaloedd. Darperir gwybodaeth ar eu cyfer gan awdurdodau lleol unigol. Maent yn gynghorol yn unig.
- Mae'r Pwyllgorau'n helpu gwasanaethau i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r cyllid sydd ar gael.
- Mae chwe Phwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ledled Cymru:
 1. **Y Fro a Chaerdydd** – *Ardal Awdurdodau Lleol Bro Morgannwg a Chaerdydd*
 2. **Gwent** – *Ardal Awdurdodau Lleol Blaenau Gwent, Casnewydd, Torfaen, Caerffili a Sir Fynwy*
 3. **Canolbarth a Gorllewin Cymru** – *Ardal Awdurdodau Lleol Powys, Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gâr*
 4. **Bae'r Gorllewin** – *Ardal Awdurdodau Lleol Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr*
 5. **Cwm Taf** – *Ardal Awdurdodau Lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful*
 6. **Gogledd Cymru** – *Ardal Awdurdodau Lleol Ynys Môn, Wrecsam, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd a Sir y Fflint*
- Mae pob Pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, maes iechyd, y gwasanaeth prawf, darparwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl, a landlordiaid. Maent hefyd yn gweithio i sicrhau y caiff barn pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau ei chynrychioli.
- Mae'r Pwyllgorau yn gyfrifol am gynhyrchu Cynlluniau Comisiynu Rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau, sy'n rhoi ystyriaeth i flaenoriaethau lleol ac yn nodi'r ffordd fwyaf effeithiol o ddiwallu anghenion lleol. Y ddogfen hon yw sylfaen yr argymhellion i Lywodraeth Cymru.
- Mae data ar ganlyniadau wedi cael eu casglu gan ddarparwyr ers 2012. Mae'r data yn dystiolaeth o'r gwahaniaeth mae'r rhaglen yn ei wneud i fywydau pobl a gall comisiynwyr gwasanaethau lleol ddefnyddio'r data i ddeall yr effaith mae gwasanaethau'n ei chael yn eu hardal.



Bwrdd Cyngtori Cenedlaethol Cefnogi Pobl

- Sefydlwyd Bwrdd Cyngtori Cenedlaethol Cefnogi Pobl ym mis Mawrth 2012 fel Bwrdd Cyngtori'r Gweinidog yn dilyn Adolygiad Aylward.
- Nod y Bwrdd yw darparu arweinyddiaeth gref, cyfeiriad strategol clir a rhaglen sydd wedi'i diffinio'n glir.
- Mae'r Bwrdd yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Hefyd, mae Aelodau o'r Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd â'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol.
- Gellir cael mwy o wybodaeth am y Bwrdd ar dudalennau gwe Cefnogi Pobl ar wefan Llywodraeth Cymru. Gweler y dolenni ar gyfer y ddau o dan y pennawd 'Rhagor o wybodaeth' isod.

Rhagor o wybodaeth

Hefyd, gellir cael gwybodaeth fanylach o'r canlynol:

- Tudalennau Gwe Cefnogi Pobl ar wefan Llywodraeth Cymru
<http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/supporting-people/?skip=1&lang=cy>
- Cyswllt – Tai â Chymorth, Y Tîm Grantiau Digartrefedd a Refeniw, Yr Is-adran Polisi Tai
SupportingPeople@wales.gsi.gov.uk

